Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Offerynnau Statudol Gydag Adroddiadau Clir

31 Mawrth 2014

## CLA387 - Gorchymyn Twbercwlosis (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014

**Gweithdrefn:** Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1379 (Cy. 122)) a Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011 (O.S. 2011/692 (Cy. 104)). Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gymeradwyo milfeddygon i gynnal profion diagnostig penodol ar gyfer twbercwlosis (profion perthnasol) ar anifeiliaid buchol, ac anifeiliaid nad ydynt yn anifeiliaid buchol, ac i archwilio a marcio'r anifeiliaid hynny. Mae'n darparu ar gyfer gofynion awtomatig i fod yn gymwys i geidwad pan fo prawf perthnasol yn datgelu adweithydd neu adweithydd amhendant.

## CLA390 - Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Asesu Adnoddau) a Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2014

**Gweithdrefn:** Negyddol

Mae'r Rheoliadau yn ymwneud ag asesiad ariannol o unigolion ar gyfer codi tâl am ofal preswyl a gofal nad yw'n ofal preswyl a bydd yn:

<u>Gofal preswyl</u>

- codi'r swm o arian wythnosol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ganiatáu i breswylydd mewn gofal ei gadw i'w wario ar eitemau personol o £24.50 i £25.00 yr wythnos;
- codi'r cyfyngiad cyfalaf sengl (gwerth eiddo, cynilion a buddsoddiadau a gaiff eu dal er mwyn penderfynu ai'r preswylydd neu'r awdurdod lleol fydd yn ariannu'r gofal preswyl) o £23,250 i £24,000;

Gofal nad yw'n ofal preswyl

- gwneud newid technegol sy'n cyflwyno diystyriaeth rannol mewn asesiadau ariannol o'r £10 yr wythnos cyntaf o Daliadau Incwm Gwarantedig a wneir o dan Orchymyn y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn (Cynllun Iawndal) 2011 i wr, gwraig, partner sifil neu oedolyn sy'n ddibynnol ar y cyn-aelod o'r lluoedd arfog;
- cynyddu'r swm uchaf y caiff awdurdod lleol ei benderfynu fel tâl rhesymol am ddarparu gwasanaethau neu gyfuniad o wasanaethau, a'r swm uchaf y caiff awdurdod lleol ei benderfynu fel swm rhesymol am gyfraniad neu ad-daliad am dderbyn taliad uniongyrchol, o £50 yr wythnos i £55 yr wythnos.

**CLA391 -Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn**: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu, disodli a diwygio'r Rheoliadau cyfatebol o 2008. Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu pob tanwydd sydd yn awr wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio mewn ardaloedd rheoli mwg yng Nghymru (h.y. ardal a ddynodir gan awdurdod lleol yn ardal rheoli mwg).

**CLA392 - Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn**: Negyddol

Mae Deddf Aer Glân 1993 yn gwahardd gollwng mwg mewn ardaloedd rheoli mwg. Fodd bynnag, mae Deddf 1993 yn darparu ar gyfer esemptio dosbarthiadau penodedig o leoedd tân. Mae'r Gorchymyn hwn yn nodi'r lleoedd tân esempt hynny (ac yn dirymu, disodli a diwygio'r Gorchymyn 2013 cyfatebol).